CYHOEDDIAD

# Y camau a ofynnwyd gan y cyhoedd yng Nghymru yng nghynllun Cymru Sero Net: crynodeb o'r ymchwil

Ymchwil i helpu i ddeall agweddau, rhwystrau a chymhellion gweithredu ar newid yn yr hinsawdd o Gynllun Sero Net Cymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 6 Gorffennaf 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 6 Gorffennaf 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Nodau a methodoleg ymchwil**

**Canfyddiadau**

**Casgliad**

**Manylion cyswllt**

**Atodiad A: cwestiynau arolwg**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae **cynllun Cymru Sero Net** (ail gynllun lleihau allyriadau carbon Cymru) yn tynnu sylw at y ffaith bod cyflawni sero net yn her gymdeithasol yn ogystal ag yn her dechnegol, ac ochr yn ochr â chamau gweithredu gan y sector cyhoeddus, busnesau a diwydiant Cymru a Llywodraeth y DU, mae'n cynnwys nifer o gamau gweithredu a ofynnir amdanynt gan y cyhoedd yng Nghymru. Mae'n tynnu ar gyngor gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd sy'n nodi y bydd y mwyafrif (~ 62%) o ostyngiadau allyriadau yn gofyn am ryw fath o newid mewn ymddygiad cymdeithasol.

Ymrwymodd y cynllun i **ymgynghoriad ar strategaeth newydd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd** i nodi sut bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi pobl Cymru drwy'r cyfnod pontio i ffordd fwy cynaliadwy o fyw. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2022, ac mae crynodeb o'r ymatebion wedi'i gyhoeddi.

Nod y **strategaeth newydd hon ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd** yw nodi fframwaith ac egwyddorion arweiniol ar sut bydd Llywodraeth Cymru:

- Yn cynnwys pobl mewn penderfyniadau (gan gynnwys llunio polisi) ynglŷn â sut i fynd i'r afael â newid hinsawdd; ac
- Yn cynnwys pobl yn y camau gweithredu sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Mae'r crynodeb hwn yn amlinellu ymchwil a wnaed i helpu i ddeall agweddau, rhwystrau a chymhellion o ran gweithredu ar newid hinsawdd, ac yn benodol o amgylch y camau gweithredu ('pethau y gofynnir i bobl eu gwneud') a nodir yng nghynllun Sero Net Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Nodau a methodoleg ymchwil

Nod yr ymchwil hon yw:

- archwilio barn ac agweddau'r cyhoedd a'r rhwystrau i wneud dewisiadau gwyrdd;
- archwilio pa gymorth y gallai fod ei angen gan Lywodraeth Cymru, a sefydliadau eraill i helpu i oresgyn rhwystrau i wneud dewisiadau gwyrdd;
- nodi dulliau cyfathrebu effeithiol ar ddewisiadau gwyrdd;
- archwilio sut i gynnwys pobl mewn camau sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru y Tîm Deall Ymddygiad (BIT) a Beaufort Research i helpu i ddatblygu strategaeth gyfathrebu ar newid ymddygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cefnogi'r strategaeth newydd i ymgysylltu â'r cyhoedd.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys tri phrif ddull: adolygiad o dystiolaeth, grwpiau ffocws ac arolwg. Roedd y mewnwelediadau penodol i Gymru am ddewisiadau pobl o ran yr hinsawdd yn cynnwys:

- Data meintiol am rwystrau i ddewisiadau allweddol o ran yr hinsawdd;
- Mewnwelediadau ansoddol am rwystrau;
- Atebion cyfathrebu enghreifftiol.

Darparwyd mewnwelediadau o amgylch pedair thema allweddol: dewisiadau ynni yn y cartref, dewisiadau teithio, dewisiadau bwyd a dewisiadau defnydd gyda data penodol i Gymru am is-ymddygiadau ynddynt. Dewiswyd y themâu hyn gan eu bod yn cyd-fynd â'r 'hyn rydym yn gofyn amdano gan y cyhoedd yng Nghymru' yng **nghynllun Sero Net Cymru** ac sydd bellach wedi'u manylu o fewn y strategaeth newydd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cynhaliwyd y gwaith maes yn yr hydref 2022.

## Adolygiad o Dystiolaeth

Cynhaliodd y Tîm Deall Ymddygiad (BIT) Adolygiad o Dystiolaeth i nodi'r egwyddorion allweddol ar gyfer cyfathrebu'n llwyddiannus ynghylch yr hinsawdd. Roedd hyn yn cynnwys adolygu mwy na 110 o bapurau ac astudiaethau achos, a chyfuno dysgu ar draws **fframwaith hawdd, deniadol, cymdeithasol ac amserol (EAST) y tîm**. Nid adolygiad systematig ydoedd ond sgan o dystiolaeth.

## Arolwg

Datblygwyd yr arolwg gan y Tîm Deall Ymddygiad a Beaufort Research. Fe'i cynhaliwyd gyda sampl cwota o 1,000 o oedolion ledled Cymru ac mae'n adlewyrchu'r boblogaeth o ran nodweddion demograffig allweddol.

Roedd yr arolwg yn gorfod parchu rheolaethau [1] cwota demograffig oedd yn cyd-gloi sef grŵp oedran o fewn rhywedd. Gosodwyd rheolaeth gwota ar wahân bellach ar radd gymdeithasol [2]  a chynhaliwyd cyfweliadau gyda thrigolion pob awdurdod lleol yng Nghymru. Ar y cam dadansoddi, cafodd y data ei bwysoli yn ôl grŵp oedran, rhywedd, grwpio awdurdodau lleol a gradd gymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod y sampl yn adlewyrchu ffigurau Cyfrifiad 2011 a nodweddion penodol poblogaeth Cymru.

Darparwyd cwestiynau drafft ar gyfer yr arolwg a thrafodaethau grwpiau ffocws gan Lywodraeth Cymru. Cafodd fersiynau terfynol o’r rhain eu cwblhau yn dilyn trafodaethau gyda’r Tîm Deall Ymddygiad a Beaufort (gweler Atodiad A am gwestiynau'r arolwg).

Roedd yr holl gwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg yn gwestiynau caeedig,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hynny yw, rhoddwyd opsiynau ymateb i'r cyfranogwyr ddewis ohonynt.

Cafodd gwestiynau demograffig eu cynnwys fel rhai safonol yn yr arolwg. Roedd yr arolwg ar gael yn Saesneg ac yn y Gymraeg a gellid ei gwblhau yn yr iaith oedd orau gan y cyfranogwyr.

Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer yr arolwg rhwng 7-27 Tachwedd 2022. Cwblhawyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,000 o gyfweliadau.

## Grwpiau ffocws

Hwylusodd Beaufort Research 6 grŵp ffocws gyda 42 o gyfranogwyr yn cwmpasu amrywiaeth o nodweddion gan gynnwys oedran, grŵp economaidd-gymdeithasol, gwledig/trefol, agwedd tuag at newid hinsawdd a'r Gymraeg. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws ym mis Tachwedd 2022.

Bu'r grwpiau ffocws yn archwilio canfyddiadau'r arolwg yn fanylach. Roedd y pynciau'n cynnwys:

- ymddygiadau presennol mewn perthynas â’r hinsawdd
- parodrwydd i weithredu nawr ac yn y dyfodol ar ddewisiadau gwyrdd
- bod yn agored i newid ar ymddygiadau gwyrdd allweddol
- rhwystrau a galluogwyr ar ymddygiadau gwyrdd
- archwilio adborth ar syniadau o ran atebion cyfathrebu o'r adolygiad o dystiolaeth

[1]  Mae rheolaethau cwota yn golygu niferoedd targed o gyfweliadau ar gyfer grwpiau demograffig penodol sy’n rhan o’r boblogaeth, er mwyn helpu i gyflawni sampl gynrychioliadol ar gyfer yr arolwg. Mae rheolaethau cwotâu demograffig sy’n cyd-gloi yn golygu bod y targed yn ymgorffori dau newidyn: grŵp oedran o fewn rhywedd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae gradd gymdeithasol yn system ddosbarthu sy'n seiliedig ar alwedigaeth a ddatblygwyd i'w defnyddio ar y National Readership Survey (NRS). Diffinnir graddau cymdeithasol fel a ganlyn:

- AB: Galwedigaethau rheoli, gweinyddu a galwedigaethau proffesiynol uwch a chanolradd
- C1: Galwedigaethau goruchwylio, clercol ac is-reoli a galwedigaethau gweinyddu a phroffesiynol
- C2: Gweithwyr llaw medrus
- DE: Gweithwyr llaw lled-fedrus a heb sgiliau, pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr dros dro a gradd isaf, pobl ddi-waith sy'n derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig.

# Canfyddiadau

## Adolygiad o dystiolaeth

Roedd casgliadau'r adolygiad o dystiolaeth yn sail ar gyfer argymhellion ar sut i ddylunio cyfathrebiadau ynghylch dewisiadau gwyrdd ac fe'u nodir isod:

1. Canolbwyntio ar ymddygiadau pendant, gyda galwadau i weithredu lle bo hynny'n briodol a neges 'baratoi' mewn mannau eraill. Mae 'paratoi' yn y cyd-destun hwn yn golygu lle mae'r cynulleidfaoedd yn wynebu rhwystrau, neu os yw'r gefnogaeth angenrheidiol mewn polisi yn annigonol, neu os yw cefnogaeth/parodrwydd y cyhoedd yn isel mewn perthynas ag ymddygiad penodol.
2. Ymgorffori'n gadarn y camau hynny sy'n hawdd i'r rhan fwyaf o bobl eu gwneud (llai o rwystrau), gan ddechrau hyrwyddo gweithredoedd a all fod yn haws i rai neu ychydig.
3. Canolbwyntio ar fyfyrio a mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl yn eu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hwynebu.
4. Tynnu ar **11 egwyddor ymddygiadol y Tîm Deall Ymddygiad ar gyfathrebu ar yr hinsawdd** sy'n cwmpasu sut i wneud dewisiadau hinsawdd yn hawdd, yn ddeniadol, yn gymdeithasol ac yn amserol (fframwaith EAST).
5. Defnyddio rhestr hir y tîm o 60+ o syniadau ar atebion cyfathrebu.
6. Teilwra negeseuon, gan wneud yn siŵr eich bod yn ystyried amgylchiadau ac agweddau gwahanol.
7. Cynnal rhagor o waith ymchwil ar rwystrau a galluogwyr ymddygiadau penodol yn ymwneud â'r hinsawdd, gan geisio mewnbwn arbenigol a negeseuon prawf defnyddwyr, yn ogystal â gwerthuso'n drylwyr.
8. Bod yn ymwybodol o gyfyngiadau cyfathrebu a cheisio newidiadau polisi mwy i annog newid ymddygiad.

Roedd argymhellion yr adolygiad o dystiolaeth hefyd yn cynnwys amcanion tymor byr yr ymgyrch gyfathrebu ynghylch yr hyn y mae ymddygiadol yn gofyn am ganolbwyntio arno. Awgrymodd yr adolygiad o dystiolaeth y gellid cyflwyno dewisiadau gwyrdd mewn dwy brif ffordd:

a) Yr hyn rydym yn gofyn amdano: galwad i weithredu rhesymol
Mae'r rhain yn gyfathrebiadau sy'n gofyn yn uniongyrchol i'r cyhoedd yng Nghymru (ac yn eu hannog) wneud dewisiadau gwyrdd sydd eisoes yn bosibl i'r rhan fwyaf o bobl eu mabwysiadu neu sydd wedi'u cefnogi'n dda gan fesurau polisi, y mae digon o'r cyhoedd yn barod amdanynt, sy'n gallu lleihau allyriadau yn ystyrlon, ac y gall ymgyrch gael effaith ystyrlon arnynt o gael ei chyflawni'n effeithiol. Mae cyfle i 'ofyn' i bobl ymgymryd â dewisiadau llai ar unwaith sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer newidiadau mwy.

b) Paratoi: neges sy'n ennyn diddordeb er mwyn adeiladu cam wrth gam
Mae'r rhain yn gyfathrebiadau sydd â'r nod o feithrin ymddiriedaeth, cyfreithlondeb, gwybodaeth a normau ynghylch camau gweithredu sydd â llai o gefnogaeth yn gyffredinol, yn hytrach na gofyn am weithredu uniongyrchol. Y nod yw paratoi at ddewisiadau a allai: ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ddangos cyfreithlondeb, cyllid, arweinyddiaeth neu ymdrechion polisi yn y dyfodol, sydd angen mwy o ymddiriedaeth a bod yn gyfarwydd, sydd heb lefelau uchel o gefnogaeth y cyhoedd eto, neu sy'n destun bylchau o ran gwybodaeth/ymwybyddiaeth. Mae cyfle i gael pobl Cymru i 'baratoi' at y syniad drwy annog camau canolradd llai a allai eu paratoi ar gyfer camau mwy.

## Canfyddiadau arolygon a grwpiau ffocws

Fel rhan o'r arolwg a'r grwpiau ffocws, rhoddwyd dulliau cyfathrebu a phynciau ar brawf. Datblygwyd y rhain yn seiliedig ar ganlyniadau'r adolygiad o dystiolaeth. Y meysydd ffocws oedd y dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

1. Helpu pobl i adnabod cynhyrchion a gwasanaethau mwy cynaliadwy.
2. Egluro beth mae sefydliadau eraill yn ei wneud i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd (e.e. llywodraeth leol, busnesau lleol).
3. Cyfleu'r hyn y maen nhw'n ei wneud i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd (e.e. sut rydym yn lleihau'r defnydd o ynni yn adeiladau'r llywodraeth).
4. Annog pobl i weithredu.
5. Amlinellu cynllun ar gyfer sut bydd Cymru'n helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.
6. Darparu gwybodaeth am sut gall pobl baratoi ar gyfer technolegau newydd a newidiadau eraill (e.e. ceir trydan, pympiau gwres).
7. Darparu gwybodaeth am gamau gweithredu effeithiol y gall pobl eu cymryd ar unwaith i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd (e.e. arbed ynni, lleihau gwastraff bwyd).

Cefnogwyd pob un o'r saith agwedd ar ymgyrch gyfathrebu a awgrymwyd gan fwyafrif o ymatebwyr yr arolwg (cefnogaeth o rhwng 82 ac 87 y cant ar gyfer pob agwedd). O'r ymatebwyr i'r arolwg, roedd cyfran is o ddynion a chyfran is ymhlith y rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is o'r farn bod y pynciau cyfathrebu yn bwysig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Edrychodd yr arolwg a'r grwpiau ffocws hefyd ar bynciau penodol lle gellid gwneud dewisiadau gwyrdd y manylir arnynt yng **nghynllun Sero Net Cymru** a hefyd y rhai a nodwyd o'r adolygiad o dystiolaeth. Archwiliwyd ymhellach a hoffai'r cyhoedd glywed gan Lywodraeth Cymru ar y pynciau hyn. Roedd y pynciau'n cynnwys siopa mewn modd cynaliadwy, dim ond prynu'r hyn sydd ei angen arnoch i leihau gwastraff, atgyweirio ac ailddefnyddio eitemau (yn lle prynu eitemau newydd), ailgylchu a lleihau gwastraff bwyd. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr yr hoffent glywed gan Lywodraeth Cymru ar y rhan fwyaf o'r pynciau allweddol o ran cynaliadwyedd. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth yn is ar gyfer y pwnc trafnidiaeth ac yn gymysg mewn perthynas â'r pwnc dewisiadau bwyd gwyrdd. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr yn gefnogol iawn i wastraff bwyd gael ei gynnwys mewn ymgyrch, ond cynnwys newid mewn deiet gafodd y lefel isaf o gefnogaeth ym mhob un o'r meysydd.

Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio hefyd ar rwystrau i gamau gweithredu ar draws meysydd pwnc dewisiadau gwyrdd allweddol. Mae'r prif ganfyddiadau a adroddwyd yma yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r arolwg. Fodd bynnag, atgyfnerthwyd y rhain yn y trafodaethau ansoddol yn y grwpiau ffocws.

- Y tri phrif rwystr i arbedion ynni oedd: diffyg llythrennedd ynni, cysur thermol yn y cartref (dewis cael cartref cynnes) ac anallu i arbed mwy o ynni nag oeddent eisoes yn ei wneud. Mae 2 o bob 3 yn dweud eu bod eisoes yn arbed cymaint o ynni â phosibl.
- Y prif rwystr, a ddewiswyd gan y rhan fwyaf o ymatebwyr, i dderbyn addasiadau i'r cartref fel inswleiddio atig, paneli solar i wneud cartrefi'n fwy effeithlon o ran ynni, oedd y gost uchel ymlaen llaw. Fodd bynnag, nododd bron i 1 o bob 5 ddiffyg gwybodaeth am beth i'w wneud a sut i wneud eu cartref yn fwy effeithlon o ran ynni.
- Y prif rwystrau sy'n atal pobl rhag gwneud mwy o ddefnydd o deithio llesol oedd: bod eu taith nodweddiadol yn rhy hir ar gyfer cerdded neu feicio (dyma oedd ateb 1 o bob 3). Awgrymodd eraill nad oedd yn gyfleus neu nad oeddent yn berchen ar feic.
- Nododd yr arolwg amrywiaeth o rwystrau a oedd yn atal pobl rhag gwneud

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

rhagor o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus gan gynnwys: diffyg seilwaith, fel diffyg trafnidiaeth gyhoeddus dda yn eu hardal fel y prif rwystr (a adroddwyd gan 1 o bob 3), ac yna cost gymharol is gyrru o'i gymharu â mynd ar drafnidiaeth gyhoeddus (a adroddwyd gan 1 o bob 5). Byddai 1 o bob 10 yn croesawu rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael iddynt yn lleol o ran trafnidiaeth gyhoeddus.
- Y rhwystrau mwyaf o bell ffordd a oedd yn atal pobl rhag cael cerbydau trydan (EV) fel yr adroddwyd gan ymatebwyr yr arolwg, oedd y gost uchel ymlaen llaw uchel. Dyna oedd ateb 1 o bob 2. Yn ogystal, nododd bron i 1 o bob 5 o'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod digon am gerbydau EV neu y byddai angen dwyn perswâd arnynt.
- Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw rwystrau a oedd yn eu hatal rhag lleihau gwastraff bwyd (6 o bob 10). Fodd bynnag, o'r ymatebwyr eraill, roedd 1 o bob 5 yn ei chael hi'n anodd lleihau eu gwastraff bwyd. Roedd 1 o bob 10 yn awyddus i gael rhagor o wybodaeth am beth i'w wneud a sut.
- Nid oedd yr arolwg yn nodi unrhyw rwystrau a oedd yn atal pobl rhag bwyta llai o gig a llaeth. Dim ond 1 o bob 3 a ddywedodd eu bod yn gwrthwynebu bwyta llai o gig a chynhyrchion llaeth.
- Y prif rwystrau a oedd yn atal pobl rhag siopa'n gynaliadwy, fel prynu bwyd organig neu dymhorol yn bennaf neu brynu eitemau gyda llai o becynnu oedd cost. Dywedodd y mwyafrif, 1 o bob 3, fod opsiynau cynaliadwy yn rhy ddrud. Roedd lleiafrif o ymatebwyr yn ei chael hi'n anodd adnabod gwybod pa eitemau siopa sydd fwyaf cynaliadwy (1 o bob 10).
- Y prif rwystrau a adroddwyd a oedd yn atal pobl rhag atgyweirio ac ailddefnyddio eitemau fel cyfarpar neu offer trydanol oedd yr anhawster i wneud hynny (1 mewn 5), a diffyg gwybodaeth ynghylch sut i fynd ati (1 o bob 10). Y rhwystr mwyaf a adroddwyd oedd ei bod hi'n anodd atgyweirio ac ailddefnyddio (ar gyfer 1 o bob 5).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Casgliad

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall yn well ymddygiad y cyhoedd mewn perthynas â’r camau gweithredu yng **nghynllun Sero Net Cymru** sy'n gofyn am newid yn y dewisiadau y mae'r cyhoedd yn eu gwneud. Fe'u defnyddiwyd hefyd i lywio'r strategaeth newydd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgyrch a gwefan Gweithredu ar Newid Hinsawdd.

# Manylion cyswllt

Awduron: Tîm Cyfathrebu Newid Hinsawdd, Llywodraeth Cymru

Mae’r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn perthyn i’r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd i Lywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth:

E-bostiwch: **newidhinsawdd@llyw.cymru**

# Atodiad A: cwestiynau arolwg

## Parodrwydd i weithredu

### QBC1

Hoffem gael eich barn ar gamau y gallai pobl eu cymryd i helpu i frwydro yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

erbyn newid hinsawdd. Pa mor barod ydych chi i wneud y canlynol yn y flwyddyn nesaf? [Randomise order of behaviours]

- Siopa'n gynaliadwy (e.e. lleol, organig, bwyd tymhorol, llai o becynnu, cynhyrchu cynaliadwy etc.)
- Dim ond prynu'r hyn sydd ei angen arnoch i leihau gwastraff
- Atgyweirio neu ailddefnyddio pethau yn hytrach na phrynu o'r newydd
- Ailgylchu mwy
- Lleihau eich gwastraff bwyd (e.e. bwyta bwyd dros ben yn ddiweddarach yn hytrach na'i daflu)
- Lleihau eich defnydd o ynni yn y cartref (e.e. defnyddio offer ar y modd eco, gostwng tymheredd eich thermostat)
- Newid i dariff ynni gwyrdd
- Gyrru llai a cherdded neu feicio yn amlach
- Gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn amlach

[Bendant ddim yn barod / Annhebygol / Ddim yn siŵr / Mae'n debygol / Bendant yn barod / Dwi'n gwneud hyn eisoes] [Invert scale between participants, but with 'I do this already' always at the end]

## QBC2

Pa mor barod ydych chi i wneud y canlynol yn y pum mlynedd nesaf? [Randomise order of behaviours]

- Addasu eich tŷ i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni (e.e. inswleiddio atig, wal neu lawr)
- Newid i ynni adnewyddadwy yn y cartref (e.e. paneli solar, pympiau gwres)
- Newid i gerbyd allyriadau is (e.e. hybrid neu drydan)
- Dewis hedfan llai
- Newid eich deiet i fwyta llai o gig a chynhyrchion llaeth a mwy o lysiau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

[Bendant ddim yn barod / Annhebygol / Ddim yn siŵr / Mae'n debygol / Bendant yn barod / Dwi'n gwneud hyn eisoes] [Invert scale between participants, but with ‘I do this already’ always at the end]

## QBC3

Efallai y bydd angen rhywfaint o baratoi ar gyfer rhai o'r camau gweithredu tymor hir hyn. Pa mor barod ydych chi i wneud y canlynol nawr, i baratoi ar gyfer newidiadau yn y 5 mlynedd nesaf? [Randomise order of behaviours]

- Rhoi tro ar yrru cerbyd trydan
- Cyfnewid un math o daith i feicio/cerdded (e.e. y cymudo, y daith i'r ysgol, siopa bwyd)
- Lleihau tymheredd llif eich boeler (y tymheredd y mae eich boeler yn cynhesu'r dŵr iddo cyn ei anfon i'ch rheiddiaduron)
- Gosod mesurydd clyfar (mesurydd nwy a thrydan sy’n darllen lefelau defnydd ei hun gyda sgrin yn y cartref sy'n dangos faint o ynni rydych yn ei ddefnyddio mewn punnoedd a cheiniogau)
- Gwirio tystysgrif perfformiad ynni eich cartref (EPC) ar-lein a pha fesurau effeithlonrwydd ynni sy'n cael eu hargymell
- Ymchwilio i grantiau gan y Llywodraeth ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy (e.e. cymorth ariannol ar gyfer pympiau gwres, paneli solar ac inswleiddio)
- Ymchwilio i ryseitiau ar gyfer deiet iach a chynaliadwy sy'n cynnwys llai o gig a mwy o lysiau / protein o blanhigion
- Ymchwilio i ddewisiadau amgen i hedfan wrth deithio dramor

[Bendant ddim yn barod / Annhebygol / Ddim yn siŵr / Mae'n debygol / Bendant yn barod / Dwi'n gwneud hyn eisoes] [Invert scale between participants, but with ‘I do this already’ always at the end]

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Rhwystrau i ymddygiad

[Single response answers - randomise order but keep “Nothing stops me”, “I don’t know” and “Other” at the end]

### QBC4a

Beth, os unrhyw beth, yw'r rheswm mwyaf sy'n eich atal rhag lleihau eich defnydd o ynni yn y cartref?

- Dydw i ddim yn siŵr pa newidiadau y mae angen i mi eu gwneud neu ba newidiadau sy'n lleihau ynni fwyaf
- Rwyf eisoes yn arbed cymaint ag y gallaf
- Mae'n well gen i gael cartref cynnes
- Does dim byd yn fy stopio
- Ddim yn gwybod
- Arall [free text box]

### QBC4b

Beth, os unrhyw beth, yw'r rheswm mwyaf sy'n eich atal rhag addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni (e.e. paneli solar, pwmp gwres, neu inswleiddio atig, wal neu lawr)?

- Mae'n ddrud
- Mae'n anghyfleus (e.e. yn amharu, yn cymryd llawer o amser)
- Mae angen rhagor o wybodaeth arnaf am beth yn union i'w wneud a sut
- Dydw i ddim yn argyhoeddedig ei fod yn angenrheidiol ar gyfer fy nghartref
- Does dim byd yn fy stopio
- Ddim yn gwybod

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Arall [free text box]

## QBC4C

Beth, os unrhyw beth, yw'r rheswm mwyaf sy'n eich atal rhag lleihau eich gwastraff bwyd?

- Mae'n anodd ei wneud (e.e. cynllunio siopa, coginio dim ond cymaint ag sydd ei angen, rhewi ac ailddefnyddio)
- Dydw i ddim yn hoffi'r syniad o fwyta bwyd dros ben
- Mae angen rhagor o wybodaeth arnaf am beth yn union i'w wneud a sut
- Does dim byd yn fy stopio
- Ddim yn gwybod
- Arall [free text box]

## QBC4d

Beth, os unrhyw beth, yw'r rheswm mwyaf sy'n eich atal rhag bwyta llai o gig a chynhyrchion llaeth a mwy o lysiau?

- Mae'n anodd ei wneud (e.e. dysgu a rhoi cynnig ar ryseitiau newydd, goresgyn arferion)
- Mae dewisiadau eraill yn fwy costus
- Mae angen rhagor o wybodaeth arnaf am beth yn union i'w wneud a sut
- Dydw i ddim yn argyhoeddedig ei fod yn dda i'm hiechyd
- Dydw i ddim yn ymwybodol o sut mae cig a chynhyrchion llaeth yn effeithio ar newid hinsawdd
- Dwi'n mwynhau bwyta cig a chynhyrchion llaeth a dydw i ddim am fwyta llai
- Does dim byd yn fy stopio
- Ddim yn gwybod
- Arall [free text box]

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## QBC4e

Beth, os unrhyw beth, yw'r rheswm mwyaf sy'n eich atal rhag gyrru llai a cherdded neu feicio mwy?

- Mae'n llai cyfleus oherwydd diffyg llwybrau cerdded a beicio da yn fy ardal
- Mae'r rhan fwyaf o'm teithiau yn rhy bell i gerdded neu feicio
- Dydw i ddim yn berchen ar feic
- Dwi'n mwynhau gyrru a dydw i ddim yn dymuno cerdded neu feicio yn lle hynny
- Mae angen rhagor o wybodaeth arnaf am lwybrau cerdded a beicio yn fy ardal
- Dydw i ddim yn argyhoeddedig mai dyma'r peth iawn i'w wneud
- Dydw i ddim yn teimlo'n ddiogel yn cerdded a beicio
- Does dim byd yn fy stopio
- Ddim yn gwybod
- Arall [free text box]

## QBC42f

Beth, os unrhyw beth, yw'r rheswm mwyaf sy'n eich atal rhag gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus fwy?

- Mae'n llai cyfleus oherwydd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus dda yn fy ymyl
- Mae'n rhatach gyrru na defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
- Dwi'n mwynhau gyrru a dydw i ddim am deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn lle hynny
- Mae angen rhagor o wybodaeth arnaf am lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus ac opsiynau yn fy ardal
- Dydw i ddim yn teimlo'n ddiogel yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
- Dydw i ddim yn argyhoeddedig mai dyma'r peth iawn i'w wneud

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Does dim byd yn fy stopio
- Ddim yn gwybod
- Arall [free text box]

## QBC4g

Beth, os unrhyw beth, yw'r rheswm mwyaf sy'n eich atal rhag newid i gerbyd allyriadau is (e.e. hybrid neu drydan)?

- Mae'n ddrud
- Dydw i ddim yn argyhoeddedig mai dyma'r peth iawn i'w wneud
- Dydw i ddim yn gwybod digon am y peth
- Dwi'n hoffi fy nghar presennol a dydw i ddim wedi dod o hyd i gerbyd EV sy'n well gen i
- Mae'n anodd ei wneud (e.e. diffyg gwefrwyr cyhoeddus, methu cael gwefrydd fy hun)
- Does dim byd yn fy stopio
- Ddim yn gwybod
- Arall [free text box]

## QBC4h

Beth, os unrhyw beth, yw'r rheswm mwyaf sy'n eich atal rhag hedfan llai?

- Mae'n ddrud teithio gan ddefnyddio dewisiadau amgen (ee trên, fferi)
- Mae'n llai cyfleus teithio gan ddefnyddio dewisiadau amgen (e.e. mae'n arafach, yn anoddach ei drefnu, yn golygu newid yn amlach)
- Dydw i ddim yn argyhoeddedig mai dyma'r peth iawn i'w wneud
- Dydw i ddim yn gwybod digon am ffyrdd eraill o deithio
- Dwi'n mwynhau hedfan
- Does dim byd yn fy stopio

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Ddim yn gwybod
- Arall [free text box]

## QBC4i

eth, os unrhyw beth, yw'r rheswm mwyaf sy'n eich atal rhag prynu cynhyrchion mwy cynaliadwy (e.e. lleol, organig, tymhorol, llai o ddeunydd pacio, cynhyrchu cynaliadwy etc.)?

- Mae'n ddrud
- Mae'n anodd dod o hyd i gynhyrchion cynaliadwy yn fy ardal leol
- Dydw i ddim yn argyhoeddedig mai dyma'r peth iawn i'w wneud
- Mae'n anodd gwybod pa gynhyrchion sy'n wirioneddol gynaliadwy
- Dwi'n hoffi'r brandiau dwi'n eu prynu ar hyn o bryd a dydw i ddim am newid
- Does dim byd yn fy stopio
- Ddim yn gwybod
- Arall [free text box]

## QBC4j

Beth, os unrhyw beth, yw'r rheswm mwyaf sy'n eich atal rhag atgyweirio ac ailddefnyddio pethau yn lle prynu pethau newydd?

- Mae'n rhatach prynu pethau newydd
- Mae'n anodd ei wneud (h.y. angen amser, sgiliau neu gyfarpar/offer)
- Dydw i ddim yn argyhoeddedig mai dyma'r peth iawn i'w wneud
- Dydw i ddim yn gwybod digon am y peth
- Dwi'n mwynhau siopa am eitemau newydd
- Does dim byd yn fy stopio
- Ddim yn gwybod
- Arall [blwch testun am ddim]

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ymgyrch gyfathrebu Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn lansio ymgyrch gyfathrebu newydd ar newid hinsawdd yn fuan.

### QBC5

Pa mor bwysig yw hi fod yr ymgyrch newydd yn gwneud y canlynol? [Randomise order of behaviours]

- Darparu gwybodaeth am gamau gweithredu effeithiol y gall pobl eu cymryd ar unwaith i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd (e.e. arbed ynni, lleihau gwastraff bwyd)
- Darparu gwybodaeth am sut gall pobl baratoi ar gyfer technolegau newydd a newidiadau eraill (e.e. ceir trydan, pympiau gwres)
- Annog pobl i weithredu
- Amlinellu cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer sut bydd Cymru yn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd
- Egluro beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd (e.e. sut mae'n lleihau'r defnydd o ynni yn adeiladau'r llywodraeth)
- Egluro beth mae sefydliadau eraill yn ei wneud i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd (e.e. llywodraeth leol, busnesau lleol)
- Helpu pobl i adnabod cynhyrchion a gwasanaethau mwy cynaliadwy

[Pwysig iawn / Eithaf pwysig / Ddim yn bwysig iawn / Ddim yn bwysig o gwbl / Ddim yn gwybod]

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## QBC6

Dyma rai pynciau y gallai Llywodraeth Cymru eu cynnwys yn yr ymgyrch gyfathrebu i hysbysu ac annog pobl yng Nghymru i weithredu. Dywedwch wrthym a ydych chi'n credu y dylid cynnwys pob un ai peidio.
[Randomise order of topics]

- Siopa'n gynaliadwy (e.e. lleol, organig, tymhorol, llai o becynnu, cynhyrchu cynaliadwy etc.)
- Dim ond prynu'r hyn sydd ei angen arnoch i leihau gwastraff
- Atgyweirio ac ailddefnyddio eitemau (yn hytrach na phrynu pethau o'r newydd)
- Ailgylchu
- Lleihau gwastraff bwyd
- Bwyta llai o gig a chynhyrchion llaeth a mwy o lysiau
- Lleihau'r defnydd o ynni yn y cartref
- Newid i dariff ynni gwyrdd
- Addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni (e.e. inswleiddio atig, waliau neu loriau)
- Newid i ynni adnewyddadwy yn y cartref (e.e. paneli solar, pympiau gwres)
- Gyrru llai a cherdded neu feicio yn amlach
- Gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn amlach
- Newid i gerbyd allyriadau is (e.e. hybrid neu drydan)
- Hedfan llai

Dylid ei gynnwys / Ni ddylid ei gynnwys / Ddim yn gwybod

## QBC7

Pa un o'r buddion canlynol fyddech chi'n cefnogi Llywodraeth Cymru i ddefnyddio yn yr ymgyrch gyfathrebu er mwyn annog pobl i gymryd camau i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

helpu i frwydro yn erbyn newid hinsawdd? Dewiswch bob un sy’n berthnasol. [Randomise order of behaviours]

- Sut gall newidiadau wneud pobl yn fwy iach
- Sut gall newidiadau arbed arian i bobl
- Sut gall newidiadau fod o fudd i'r amgylchedd
- Sut gall newidiadau fod yn gyfleus
- Sut mae llawer o bobl eraill yn gwneud newidiadau (e.e. pobl rydych chi'n eu hadnabod, enwogion)

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-camau-ofynnwyd-gan-y-cyhoedd-yng-nghymru-yng-nghynllun-cymru-sero-net-crynodeb-or-ymchwil-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.